**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Diwygio) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Diwygio) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Rebecca Evans AS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**12 Gorffennaf 2023**

## RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL

### Disgrifiad

1. Mae Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 ("Rheoliadau 2010") yn darparu ar gyfer sefydlu Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC), ei aelodaeth a'i weinyddiaeth, yn ogystal â'r gweithdrefnau ar gyfer apelau treth gyngor.

2. Mae Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Diwygio) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn diwygio Rheoliadau 2010 ac yn gwneud newidiadau mewn perthynas â gweinyddiaeth y Cyngor Llywodraethu, cyfnodau aelodaeth a gweinyddu apelau treth gyngor, er mwyn helpu TPC i foderneiddio ei arferion gweinyddol a chynnal aelodaeth gynaliadwy o'r tribiwnlys.

### Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3. Dim.

### Y cefndir deddfwriaethol

4. Mae Atodlen 11 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer sefydlu tribiwnlysoedd prisio. Gwneir Rheoliadau 2023 o dan bwerau perthnasol yn adrannau 140(4) a 143(1) a (2) a pharagraffau 1, 5(1), 8(1), (2), (3) a (6) o Atodlen 11 i Ddeddf 1988. Mae'r pwerau o dan y Ddeddf honno y mynegir eu bod yn rhai sy'n arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

5. Mae Rheoliadau 2023 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn rhinwedd adran 143(3) o Ddeddf 1988.

### Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

6. Diben y Rheoliadau hyn yw helpu TPC i foderneiddio ei arferion gweinyddol a chynnal aelodaeth gynaliadwy o'r tribiwnlys. Mae'r Rheoliadau'n gwneud diwygiadau mewn tri maes penodol, sef gweinyddiaeth y Cyngor Llywodraethu, cyfnodau aelodaeth a threfniadau gweinyddol ar gyfer apelau treth gyngor.

<u>Gweinyddiaeth y Cyngor Llywodraethu</u>

7. Mae Cyngor Llywodraethu TPC yn cynnwys y Llywydd etholedig a'r cynrychiolwyr cenedlaethol, ynghyd ag aelod ychwanegol sydd wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru. Er y caiff Gweinidogion Cymru benodi hyd at dri aelod, dim ond un a benodir ar hyn o bryd.

8. Nodwyd bod nifer o ddarpariaethau yn Rheoliadau 2010 yn cyfyngu ar weithrediad gweinyddol effeithlon y Cyngor Llywodraethu. Nid oedd y gofyniad

i bedwar neu ragor o aelodau fod yn bresennol er mwyn cynnal cyfarfod o'r Cyngor Llywodraethu â chworwm yn ystyried swyddi gwag neu absenoldebau posibl. Roedd hyn yn arwain at oedi wrth gynnull cyfarfodydd â chworwm. Ystyrir bod tri aelod yn gworwm digonol ar gyfer busnes y Cyngor Llywodraethu.

9. Mae TPC o'r farn y gallai'r broses o ffurfio panel penodiadau fod yn destun mwy o faich gweinyddol ac oedi oherwydd bod penodeion Gweinidogion Cymru i'r Cyngor Llywodraethu yn cael eu hatal rhag eistedd ar baneli penodiadau i ethol cadeiryddion. Roedd hyn hefyd yn creu anghyfartaledd rhwng aelodau'r Cyngor Llywodraethu gan nad oedd gan bob un ohonynt statws a chyfrifoldeb cyfartal. Ymhellach, ystyriwyd bod y ddarpariaeth sy'n nodi bod rhaid i aelod fod yn gadeirydd er mwyn ystyried ei ethol yn gynrychiolydd cenedlaethol, er nad yw'r un cyfyngiad yn bodoli mewn perthynas ag ethol y Llywydd, yn ddiangen.

10. O ran gweinyddu'r Cyngor Llywodraethu, mae Rheoliadau 2023 felly:
    a. yn caniatáu i gyfarfodydd y Cyngor Llywodraethu gael eu cynnal gyda thri aelod;
    b. yn caniatáu i benodeion Gweinidogion Cymru ar y Cyngor Llywodraethu eistedd ar baneli penodiadau er mwyn ethol cadeiryddion; ac
    c. yn galluogi unrhyw aelod i gael ei ystyried ar gyfer ei ethol yn gynrychiolydd cenedlaethol.

<u>Cyfnodau aelodaeth</u>

11. O dan ddarpariaethau blaenorol yn Rheoliadau 2010, penodwyd aelodau'r tribiwnlys am gyfnod penodedig o bum mlynedd. Gallai hyn gael ei adnewyddu unwaith am gyfnod pellach o bum mlynedd. Unwaith yr oedd aelod wedi gwasanaethu am gyfanswm o 10 mlynedd, ni ellid ei ailbenodi. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae hyn wedi arwain at yr aelodaeth yn gostwng, colli aelodau profiadol a chynyddu pwysau a chostau sy'n gysylltiedig â recriwtio a hyfforddi aelodau newydd. Os bydd y duedd hon yn parhau, mae perygl y bydd yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae Rheoliadau 2023 yn dileu'r cyfyngiad hwn er mwyn helpu TPC i gynnal niferoedd aelodaeth cynaliadwy a chadw aelodau profiadol. Bydd mwy o hyblygrwydd o ran hyd cyfnodau aelodaeth, hyd at y cyfnod penodedig presennol o bum mlynedd, hefyd yn helpu drwy alluogi, er enghraifft, aelodaeth gychwynnol fyrrach i aelodau newydd nad ydynt efallai'n teimlo'n barod i ymrwymo i gyfnod llawn o bum mlynedd.

12. Nodwyd bod darpariaethau yn Rheoliadau 2010 ynghylch penodi i Gyngor Llywodraethu TPC yn gyfyngol o ran eu perthynas â chyfnodau aelodaeth. Ystyriwyd bod y rhai a benodwyd i'r Cyngor Llywodraethu yn colli eu swydd ar y Cyngor Llywodraethu pan ddaeth yn adeg adnewyddu eu haelodaeth, a oedd yn sbarduno proses ailbenodi, gan greu baich gweinyddol diangen.

13. O ran cyfnodau aelodaeth, mae Rheoliadau 2023 felly:
    a. yn dileu'r terfyn 10 mlynedd presennol o ran hyd aelodaeth;

b. yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran hyd cyfnodau aelodaeth, hyd at bum mlynedd; ac
c. yn egluro, at ddiben penodiadau’r Cyngor Llywodraethu, na fydd aelodaeth yn peidio os bydd cyfnod penodiad newydd yn dilyn yn syth ar ôl cyfnod sy’n dod i ben.

Newidiadau gweinyddol i apelau treth cyngor

14. Roedd diwygiadau diweddar i’r system apelau ardrethu annomestig yn gyfle i wneud gwelliannau a ddetholwyd i hwyluso effeithlonrwydd gweinyddol gweithdrefnau TPC a moderneiddio ffyrdd o weithio. Mae Rheoliadau 2023 yn efelychu darpariaethau perthnasol ar gyfer apelau ardrethu annomestig, gan sicrhau bod modd cymhwyso’r un trefniadau i’r trefniadau gweinyddol ar gyfer apelau treth gyngor.

15. O ran gwrandawiadau apêl, mae TPC wedi mabwysiadu dull hybrid lle y mae rhai aelodau a staff yn mynd i swyddfa ffisegol, gyda phartïon eraill yn cysylltu drwy gyfleusterau fideogynadledda. Mae diffiniad o ‘gwrandawiad’ wedi’i fewnosod yn y Rheoliadau i gadarnhau y caiff TPC gynnal gwrandawiadau wyneb yn wyneb, ar sail hybrid, ac yn gyfan gwbl ‘o bell’ gyda phob parti yn ymuno drwy gyfleusterau fel fideogynadledda. Bydd hyn yn galluogi TPC i gynnal gwrandawiadau yn fwy effeithlon a lleihau costau gweinyddol. Mae darpariaethau sy’n ymwneud ag arddangos hysbysiadau o wrandawiadau apêl hefyd yn cael eu diweddaru i adlewyrchu’r defnydd cyfredol o wefannau.

16. O ran prosesau a gweithdrefnau, mae TPC yn darparu ‘protocolau arfer gorau’ i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Os nad yw defnyddwyr yn dilyn yr arferion gorau a gynghorir, gall fod oedi a chymhlethdod diangen wrth brosesu apelau a’u gwrando. Er mwyn cynorthwyo TPC i sicrhau bod cydymffurfedd, gwneir darpariaeth sy’n nodi y caiff TPC reoleiddio ei weithdrefnau ei hun, pan na fo’r rhain wedi’u rhagnodi mewn deddfwriaeth.

17. O ran y trefniadau gweinyddol ar gyfer apelau treth gyngor, mae Rheoliadau 2023, felly:
    a. yn diffinio ‘gwrandawiad’ i gadarnhau bod TPC yn gallu cynnal gwrandawiadau hybrid a chwbl rithwir;
    b. yn diweddaru’r gofynion ar gyfer arddangos hysbysiadau o wrandawiadau apêl i gynnwys swyddfa a gwefan TPC; ac
    c. yn darparu i TPC reoleiddio ei weithdrefnau ei hun pan na fo’r rhain wedi’u rhagnodi mewn rheoliadau.

## Ymgynghori

18. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gan nad yw Rheoliadau 2023 ond yn effeithio ar weithrediad TPC. Lluniwyd y gofynion ar gyfer Rheoliadau 2023 mewn cydweithrediad â thîm gweithredol TPC, yr ymgynghorwyd ag ef yn anffurfiol ynghylch fersiwn ddrafft o Reoliadau 2023. Cadarnhaodd fod y Rheoliadau drafft yn mynd i’r afael â’r holl faterion y nodwyd bod angen eu diwygio.

## RHAN 2: ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Opsiynau

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno dau opsiwn mewn perthynas â gweinyddaeth TPC, ei aelodaeth a gweinyddu apelau treth gyngor. Mae'r opsiynau a ystyriwyd fel a ganlyn:

- ***Opsiwn 1 – Gwneud dim***. Cadw'r trefniadau presennol, heb unrhyw welliannau gweinyddol na newidiadau i gyfnodau aelodaeth.

- ***Opsiwn 2 – Gwneud y Rheoliadau***. Deddfu i hwyluso a moderneiddio effeithlonrwydd gweinyddol TPC ac i gynnal lefelau aelodaeth cynaliadwy.

### Costau a manteision

#### *Opsiwn 1 - Gwneud dim*

Ni fyddai opsiwn 1 yn gofyn am unrhyw newid deddfwriaethol. Nid oes unrhyw fanteision eraill yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, byddai anfanteision i TPC o ran methu â gwireddu'r gwelliannau a nodwyd. Byddai cadw'r cyfnod aelodaeth hwyaf presennol, yn benodol, yn creu perygl o ostyngiad parhaus yn nifer yr aelodau a byddai perygl i hyn amharu ar ddarparu gwasanaethau. Byddai hyn yn effeithio ar ddefnyddwyr a gallai amharu ar gyflawni'n effeithiol bolisi Llywodraeth Cymru ynghylch cynlluniau ar gyfer ailbrisiadau amlach yng nghyswllt ardrethu annomestig a'r dreth gyngor.

Byddai'r opsiwn hwn yn dal i arwain at gostau gweinyddol i TPC, tra byddai'r gwelliannau a nodwyd yn arwain fel arall at arbedion effeithlonrwydd. Byddai cost cyfle hefyd, gan na ellid gwneud y gwelliannau a nodwyd er mwyn hwyluso gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon TPC.

#### *Opsiwn 2 – Gwneud y Rheoliadau*

Opsiwn 2 fyddai gwneud y Rheoliadau i gyflawni'r gwelliannau a nodwyd. Mae'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn cynnwys, yn benodol, cynnal aelodaeth gynaliadwy o'r tribiwnlys a chadw aelodau profiadol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau nad amherir ar y gwasanaeth y mae TPC yn ei ddarparu, gan gynnwys yng nghyd-destun cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer ailbrisiadau amlach yng nghyswllt ardrethu annomestig a'r dreth gyngor.

Bydd Cyngor Llywodraethu TPC yn gweithredu'n fwy effeithiol, gyda newidiadau i helpu i atal swyddi gwag ac absenoldebau rhag rhwystro busnes arferol a phenodiadau. Bydd galluogi unrhyw aelod i gael ei ystyried i gael ei ethol yn gynrychiolydd cenedlaethol yn helpu i sicrhau nad yw penodiadau'r dyfodol yn cael eu cyfyngu'n ormodol.

Bydd trefniadau ynghylch gwrandawiadau apelau treth gyngor yn elwa ar welliannau a wnaed eisoes mewn perthynas ag ardrethu annomestig, gan sicrhau cysondeb yn y dull gweithredu, pan fo hynny'n briodol. Mae gallu cynnal

gwrandawiadau cwbl rithwir yn faes pwysig ar gyfer cysondeb, o ran moderneiddio gweithrediadau TPC.

Nid oes dim costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, ond byddai'n hwyluso arbedion effeithlonrwydd gweinyddol i TPC. Er enghraifft, bydd arbedion gweinyddol i'w cael o osgoi ailbenodiadau diangen i'r Cyngor Llywodraethu pan ddaw'n adeg adnewyddu aelodaeth TPC, ac o allu cynnal gwrandawiadau cwbl rithwir. Bydd arbedion hefyd i'w cael o gostau recriwtio a hyfforddi is, oherwydd sefyllfa well o ran cadw aelodau a llai o drosiant o aelodau.

**Dewis Opsiwn**

Ystyrir bod manteision Opsiwn 2 yn drech na manteision Opsiwn 1. Opsiwn 2, felly, yw'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

**Dyletswyddau**

***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***. Mae cynnal y system apelau trethiant lleol yn cyfrannu tuag at y nodau llesiant ar gyfer Cymru lewyrchus a mwy cyfartal.

***Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn***. Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant.

***Y Gymraeg***. Ni nodwyd unrhyw effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin yr iaith yn gyfartal.

***Cydraddoldeb***. Ni nodwyd effeithiau penodol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar bersonau sy'n rhannu nodwedd warchodedig (fel y'i pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

***Y sector gwirfoddol***. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol ar y sector gwirfoddol y tu hwnt i'r effeithiau a fwriedir ar TPC ei hun.

***Cyfiawnder***. Bydd gwelliannau i arferion gweinyddol presennol TPC a chynnal y gwaith o ddarparu gwasanaethau yn cael effaith ddibwys ar y system gyfiawnder.

**Asesu'r gystadleuaeth**

Ni fydd Rheoliadau 2023 ond yn effeithio ar arferion gweinyddol TPC ac, o'r herwydd, ni nodwyd unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth.

**Adolygu ar ôl gweithredu**

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw TPC. Bydd adolygiad o'r broses o weithredu Rheoliadau 2023 yn cael ei gynnwys fel rhan o'r trefniadau monitro arferol.